**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR SALTNEY FERRY ROAD, SALTNEY**

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a’r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Pâl i Gerddwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Saltney Ferry Road, Saltney, fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan pâl. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan barhaol yn y lleoliad y mae Hebryngwr Croesfannau Ysgol yn weithredol ar hyn o bryd, a fydd yn helpu siwrneiau cynaliadwy i’r ysgol. Bydd y cyfleuster o fudd nid yn unig i blant sy’n teithio’n ôl ac ymlaen i’r ysgol ar amseroedd dechrau a gorffen arferol yr ysgol, ond hefyd y rhai sy’n mynychu clybiau bore neu ar ôl ysgol pan nad oes hebryngwr ar ddyletswydd neu yn ystod absenoldebau.  Bydd hefyd yn gwasanaethu’r gymuned ehangach trwy ddarparu man croesi diogel y tu allan i oriau ysgol.